



Gwella gofal a chymorth

Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth gwell i bobl yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Ailgydbwysu Gofal a Chymorth. Papur Gwyn**.

Chwefror 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Os oes unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl yn y **Geiriau anodd** ar **dudalen 19**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: llyw.cymru/ymgyngoriadau

E-bost: socialcarefutures@gov.wales



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Beth ddylai gwasanaethau gofal a chymorth ei wneud.....	8
Beth mae angen inni ei wneud i wella gofal cymdeithasol.....	11
Sut byddwn ni'n gwneud hyn.....	13
Beth rydych chi'n feddwl?.....	18
Geiriau Anodd.....	19

Cyflwyniad



Mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu trefnu a'u darparu gan:

- Awdurdodau lleol
- A Byrddau Iechyd Lleol.



Maen nhw'n helpu pobl sydd angen gofal a chymorth ychwanegol. Mae hyn yn gallu meddwl pobl hŷn, plant a theuluoedd, neu bobl anabl.

Mae gwasanaethau gofal a chymorth yn helpu pobl gyda phethau fel:



- byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.



- cyfathrebu

Mae **cyfathrebu** yn meddwl y ffordd rydyn ni'n rhannu ein meddyliau a'n teimladau. Er enghraifft, drwy siarad, ysgrifennu, iaith arwyddion, gwenu.



- ymdopi a delio â phroblemau teulu a pherthynas



- bywyd bob dydd, fel coginio, siopa a golchi



- ac maen nhw hefyd yn amddiffyn pobl rhag niwed.

Mae trefnu a darparu gofal a chymorth yn mynd yn fwy anodd oherwydd:



- mae mwy o bobl angen gofal a chymorth



- mae mwy o bobl angen cymorth oherwydd Covid-19



- mae gofal a chymorth yn costio mwy o arian



- mae gofal a chymorth yn anodd i wasanaethau eu trefnu oherwydd mae'n cael ei wneud yn wahanol ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru



- mae staff sydd yn gweithio mewn gofal a chymorth yn newid yn rhy aml oherwydd bod staff yn gadael a staff newydd yn dod yn eu lle



- mae gwasanaethau iechyd a gofal angen eu cefnogi'n well i weithio gyda'i gilydd.



Mae'r ddogfen yma yn dweud beth ydy'r newidiadau rydyn ni'n meddwl sydd eu hangen i helpu gwasanaethau i wella gofal a chymorth.



Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'n hymngynghoriad **Papur Gwyn** o'r enw "**Ailgydbwysu Gofal a Chymorth**".



Dogfen ydy **Papur Gwyn** sydd yn rhoi syniadau am newid deddfau neu wneud deddfau newydd.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer deddf newydd a fydd yn:



- helpu gwasanaethau i wella gofal a chymorth



- helpu gwasanaethau i weithio'n well gyda'i gilydd




- helpu gwasanaethau i ateb eu dyletswyddau yn y **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac yna dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl drwy ateb y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.

Beth ddylai gwasanaethau gofal a chymorth ei wneud



Mae'r **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn ddeddf sydd eisiau gwella iechyd a **llesiant**:

- pobl sydd angen gofal a chymorth
- gofalwyr sydd angen cymorth.



Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywydau a beth maen nhw'n ei wneud.



Mae'r ddeddf yma yn dweud wrth wasanaethau beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gefnogi pobl i wella **llesiant** yng Nghymru.



I helpu gwasanaethau ymhellach rydyn ni hefyd wedi ysgrifennu [Datganiad Llesiant i Gymru](#).



Mae'r datganiad **llesiant** yn ein helpu ni i ddeall beth ydy llesiant da. A pha gymorth mae person ei angen i fod yn hapus ac yn iach.

I bobl hŷn mae hyn yn meddwl eu cefnogi nhw i:



- fyw bywyd mwy hir, mwy iach ac mwy hapus



- cadw'n brysur



- byw yn eu cartefi eu hunain cyhyd ag maen nhw'n gallu.

I oedolion mae hyn yn meddwl eu cefnogi nhw i:



- gael rheolaeth dros eu bywydau eu hunain



- gallu gweithio



- gwneud y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw

I blant a theuluoedd mae hyn yn meddwl eu cefnogi nhw i:



- fyw yn ddiogel gyda'u teulu



- cadw'n hapus, diogel ac iach.

Beth mae angen inni ei wneud i wella gofal cymdeithasol



Mae gwasanaethau yn cefnogi pobl i gael **llesiant** da. Ond rydyn ni eisiau ei gwneud yn fwy hawdd iddyn nhw wneud hyn.

I helpu gyda hyn rydyn ni eisiau **ailgydbwysu** gwasanaethau gofal a chymorth. Mae hyn yn meddwl:



- Gwneud y ffordd rydyn ni'n trefnu gwasanaethau yn fwy syml.



- Canolbwyntio mwy ar ansawdd cymorth yn lle faint mae e'n gostio.



- Rheoli ein gwasanaethau yn well drwy ddarparu gwasanaethau sydd yn helpu i stopio problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.



- Cynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion pobl a beth maen nhw eisiau ei gyflawni.



- Cyrff a phobl yn gweithio mwy gyda'i gilydd, a dim cymaint ar wahân. Er enghraifft, GIG, cynghorau a gofalwyr.

Sut byddwn ni'n gwneud hyn



Rydyn ni eisiau cael arweiniad clir i drefnu gwasanaethau.



Rydyn ni eisiau i wasanaethau gael eu trefnu yn **rhanbarthol**. Mae hyn yn meddwl y bydd y gwasanaethau ym mhob rhanbarth (neu ardal) o Gymru yn cael eu trefnu gan y rhanbarth hwnnw, ar gyfer y rhanbarth cyfan.



Fe fydd y gwasanaethau ar gyfer pob rhanbarth yn cael eu darparu yn lleol – yn agos at lle mae pobl yn byw.

I wneud hyn fe fyddwn ni'n:



1. Creu **Fframwaith Cenedlaethol** i drefnu gofal a chymorth i blant ac oedolion.



Dogfen ydy **Fframwaith Cenedlaethol** gyda set o reolau a syniadau i helpu pobl sydd yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Fe fydd y fframwaith cenedlaethol yn helpu i wneud yn siŵr bod:



- gofal a chymorth yn cael eu trefnu yn yr un ffordd ar draws Cymru



- canllaw clir i faint ddylai gofal a chymorth yng Nghymru ei gostio



- cyrff gofal a chymorth yn gwneud eu gwaith yn dda



- gwasanaethau yn werth da am arian



2. Fe fydd grŵp o bobl yn creu ac yn rheoli'r **fframwaith cenedlaethol**. Enw hyn fydd y Swyddfa Genedlaethol.



3. Fe fydd gan Lywodraeth Cymru rywun i siarad dros y bobl sydd yn darparu gofal a chymorth. Fe fyddan nhw'n cael eu galw yn **Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol**.



4. Mae gan pob ardal yng Nghymru grŵp o bobl sydd yn gwneud yn siŵr bod partneriaid sydd yn trefnu ac yn darparu gofal a chymorth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae'r grwpiau yma yn cynllunio sut y dylai gofal a chymorth gael eu darparu i'r bobl sydd eu hangen yn eu hardal. Maen nhw'n cael eu galw yn **Byrddau Partneriaid Rhanbarthol**.

Fe fydd pob **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**:



- Yn cael ei sefydlu fel corff ar wahân gan ddeddf, felly mae gwahanol wasanaethau yn gallu dod at ei gilydd fel 1 grŵp. Fe fydd gan y grwpiau eu hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain.



- Yn cyflogi staff newydd i'w helpu nhw i gynllunio gofal a chymorth yn eu hardal.



- Yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd am gefnogi pobl.



- Yn cynllunio ac yn talu am wasanaethau newydd sydd yn rhoi gofal a chymorth.



- Yn ysgrifennu cynllun ar gyfer y pethau maen nhw eisiau gweithio arnyn nhw am y 5 mlynedd nesaf.



- Edrych i weld sut mae pethau'n mynd a rhannu gwybodaeth ag eraill.



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

- Cael **arolygon** gan **Arolygiaeth Gofal Cymru** (AGC). Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn **arolygu** pob corff gofal cymdeithasol.



Mae **arolwg** yn edrych i weld os ydy cyrff yn gwneud eu gwaith yn gywir.



5. Fe fydd cynghorau lleol a byrddau iechyd yn parhau i ddarparu gofal a chymorth.



Fe fyddan nhw'n gwneud eu gorau i wneud yn siŵr bod pobl lleol yn cael y gofal a'r cymorth maen nhw eu hangen yn yr ardal lle maen nhw'n byw.

Beth rydych chi'n feddwl?



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau i wella gofal a chymorth.



Llanwch y ffurflen ymateb os gwelwch yn dda a'i hanfon yn ôl aton ni. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun eich helpu chi.

Geiriau Anodd

Arolwg

Mae arolwg yn edrych i weld bod cyrff yn gwneud eu gwaith yn gywir.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn meddwl y ffordd rydyn ni'n rhannu ein meddyliau a'n teimladau. Er enghraifft drwy siarad, ysgrifennu, iaith arwyddion, gwenu.

Fframwaith Cenedlaethol

Fframwaith Cenedlaethol ydy dogfen gyda set o reolau a syniadau i helpu pobl sydd yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Gofal Iechyd GIG Parhaus

Mae Gofal Iechyd GIG Parhaus yn ofal parhaus sydd yn cael ei drefnu a'i dalu amdano gan y GIG. Mae'n gallu cael ei ddarparu yn unrhyw le, yn cynnwys eich cartref eich hun a chartrefi gofal.

Gofal nyrsio wedi'i gyllido

Gwasanaeth ydy gofal nyrsio wedi'i gyllido sydd yn rhoi arian ychwanegol am ofal nyrsio os ydych chi'n byw mewn cartref nyrsio.